



YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL



Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cartrefi mewn amgylchedd diogel a dymunol i'n tenantiaid.

Mewn partneriaeth gyda'n tenantiaid, yr heddlu, y Cyngor a chyrrff lleol eraill, rydym yn benderfynol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol, i ddatrys problemau rhwng cymdogion ac i wella'r ardal.

Mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn golygu ymddygiad sy'n debygol o achosi gofid, braw neu aflonyddu ar berson sydd ddim o'r un cartref.

MAE'N CYNNWYS:

- Aflonyddu hiliol a throseddau casineb
- Ymosod neu drais corfforol
- Camdrin geiriol neu fygythiadau
- Fandaliaeth
- Defnyddio cyffuriau anghyfreithlon (gwerthu neu gynhyrchu cyffuriau yn y cartref)
- Niwsans sŵn (gan gynnwys cerddoriaeth swnllyd, sŵn yn hwyr y nos neu'n gynnar yn y bore, cŵn yn cyfarth, sŵn cerbydau)
- Graffiti
- Gadael sbwriel (tipio anghyfreithlon, dodrefn neu gerbydau wedi eu gadael)
- Trwsio cerbyd mewn manau heb hawl, fel gerddi
- Gerddi blêr wedi tyfu'n wyllt, yn llawn sbwriel neu sy'n debyg o ddenu plâon

BETH FYDDWN NI'N WNEUD?

Mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol cyson yn gallu achosi pryder a thrafferth mawr i'n tenantiaid a'u cymdogaeth.

Fyddwn ni ddim yn goddef ymddygiad o'r fath, a byddwn yn gorfodi yr amodau sy'n cael eu gosod allan yn y cytundeb tenantiaeth.

Mae hyn yn golygu cymryd nifer o gamau yn erbyn ymddygiad gwrth-gymdeithasol, a chael chydbwysedd rhwng atal, cefnogaeth a chynghor yn ogystal â chymryd camau cyfreithiol. Mae tenantiaid gwrth-gymdeithasol mewn perygl o golli eu cartrefi.

Bydd troseddwr yn talu – byddwn yn codi tâl ar denantiaid am unrhyw ddifrod maent yn ei achosi i'n cartrefi o ganlyniad i ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

EIN SAFONAU GWASANAETH

Rydym wedi datblygu safonau gwasanaeth sy'n amlinellu sut y byddwn yn ymdrin ag achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

BETH FEDRWCH CHI WNEUD?

Os yw problem yn achosi pryder i chi, y peth cyntaf i'w wneud os ydych yn teimlo'n gyffyrddus i wneud hynny yw mynd at y tenant dan sylw. Efallai na fydd yn sylweddoli fod ei ymddygiad yn broblem. Byddwch yn gwrtais a thawel. Esboniwch beth yw'r broblem a sut mae'n effeithio arnoch chi, eich teulu neu'r ardal. Gwrandewch ar yr ymateb – a chanolbwyntio ar sut y gall yr ymddygiad newid. Os yw'r ymateb yn afresymol, neu os nad oes dim byd yn cael ei wneud, ewch â'r mater ymhellach.

Ysgrifennwch fanylion yr ymddygiad. Dylai hyn gynnwys:

- Y math o broblem
- Y dyddiad/au a'r amser mae'n digwydd
- Y lleoliad
- Pwy sy'n cymryd rhan
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall fel rhif digwyddiad gan yr heddlu

Gallwch wedyn godi'r mater yn hollol gyfrinachol gyda'ch swyddfa ardal CCG. Bydd ymchwiliad trylwyr yn cael ei gynnal. Gall hyn olygu y bydd swyddogion yn dod i gysylltiad â'r bobl sy'n gyfrifol, unrhyw dystion, ac yn dwyn adrannau perthnasol y Cynghor a/neu'r heddlu i mewn.

Gobeithio y bydd hyn yn datrys y broblem. Os na fydd, efallai y byddwn yn cymryd camau pellach trwy ein tîm Gwasanaethau Bro.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth, bydd ein Tîm Gwasanaethau Bro yn penderfynu wedyn ar pa gamau i'w cymryd. Gall hyn gynnwys rhybuddion, trafodaethau a Chytundebau Ymddygiad Derbyniol, gwaharddiad neu orchymyn ymddygiad gwrth-gymdeithasol (ASBI ac ASBO), gorchymyn i adael yr eiddo neu is-raddio tenantiaeth.

Byddwn yn rhoi cefnogaeth a help pendant i denantiaid sy'n dioddef o ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac unrhyw dystion. Byddwn yn trin bob cwyn am ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn hollol gyfrinachol.

GWYBODAETH

Gallwch weld ein Safonau Gwasanaeth a'r Polisi ar ein gwefan **www.ccgwynedd.org** neu drwy gysylltu â'r tîm Gwasanaethau Bro ar **0300 123 8084**.

RHIFAU DEFNYDDIOL

Cartrefi Cymunedol Gwynedd
0300 123 8084

Heddlu Gogledd Cymru
0845 607 1002 neu 101

CYRFF ERAILL

Crime Stoppers
0800 555 111

Cyngor ar Bopeth
08444 772020

Cymorth i Ddioddefwyr
0845 3030 900

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel Braille, llythrennau bras, neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.